CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.

Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog y Gaerwen, Nos Fawrth, 26ain EBRILL 2016.

PRESENNOL:
Cynghorydd Einion Parry Williams (Cadeirydd), Cynghorwyr Barbara McKeaveney, Mr Edward J Thomas, Mrs Catherine Jane Hughes, Mrs Janet Hughes, Mr John D Pritchard, Ms Linda Jones, Mr Mike Jones, Mr Ian Owen & Mr J Alun Foulkes (Clerc).
Cynghorwr Sirol: Mr Victor Hughes.

YMDDIHEURIAD:
Cynghorwyr Mr Raymond Evans & Mr Meirion Thomas a Cynghorwr Sirol: Mr Hywel Eifion Jones.

1 CROESO.

1.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd i'r cyfarfod.

2 DATGAN DIDDORDEB.

2.1 Ni ddatganwyd unrhyw aelod diddordeb mewn unrhyw eitem wedi ei rhestru ar y rhaglen.

3 ADRODDIAD Y CYNGHORWYR SIROL.

Cafwyd adroddiad ar lafar oddiwrth y Cynghorydd Sirol Mr Victor Hughes ar y canlynol:

3.1 Fod y Cyngor Sir yn gweithredu Polisi Iaith Ddwyieithiog ers 31 Mawrth 2016.

3.2 Ymgynghoriad Safle Sipsiwn – cafwyd adroddiad pellach fod swyddogion yn gweithio ar safleoedd eraill ac y bydd penderfyniad yn cael ei wneud gerbron y Pwyllgor Scriwtini ar Ddydd Gwener, 13eg Mai 2016.

3.3 Llwybr Cyhoeddus Rhosydd Bach, Gaerwen – cafwyd adroddiad ac egulurhad sefyllfa a chyfrifoldeb y Llwybr yn dilyn ymateb oddiwrth y Cyngor Sir gyda'r gwaith a chyfraniad y Cyngor Sir sydd eisoes wedi ei wneud. Bydd y Cynghorydd Sirol yn dilyn y mater gyda aelod o'r Adran Eiddo.

4 DERBYN COFNODION CYFARFOD BLAENOROL.

4.1 Ar ol nodi mai 'Dewi Hughes' ac nid 'Dafydd Hughes' dylai wedi ei gyfeirio ato yng nghofnod 8.3, derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod 29ain o Fawrth 2016 yn gywir. (LJ/IO).

5 MATERION CAEAU CHWARAE.

5.1 **Ffensio Cae Chwarae Gaerwen Uchaf** – cadarnhawyd fod y gwaith wedi cychwyn.

5.2 **Wâl o gwmpas Cae Peldroed –** nodwyd fod y gwaith wedi ei wneud.

5.3 **Cloau Newydd y Giatau –** rhoddwyd caniatad prynnu cloau newydd i'r giatau y caeau chwarae.

5.4 **Chwyn Laddwr –** rhoddwyd caniatad prynnu chwyn laddwr i'r caeau chwarae.

6 MATERION LLWYBRAU.

6.1 **Llwybr y Rhos –** nodwyd fod y gwaith wedi ei wneud.

6.2 **Llwybr Gaerwen Uchaf – disgwyl ymateb oddiwrth y** Cyngor Sir.

6.3 Nodwyd fod cais y Cyngor Sir o ail-lunio'r 'Llwybrau Mwy Ddiogel' i'r Cynulliad wedi methu unwaith yn rhagor ond y bydd bwriad o ail-edrych ar y cais erbyn y rownd nesaf a rhoi mwy o bwysau ar llwybrau cymunedol sydd yn cysylltu gyda'r ysgol. Fe fydd angen hefyd ail-ysgrifennu rhai o'r sylwadau wnaethpwyd yn y cais.

7 MATERION PRIFFYRDD.

Roedd y Clerc yn disgwyl ymateb y Cyngor Sir ar y canlynol:

7.1 **Manholes Stad Cynlas, Swn yr Engan ac ar hyd yr A5.**

7.2 Parcio ger Safle y Gofeb.

7.3 Pafin tu allan yr Iard Geir gyferbyn a Stermat ar y A5.

7.4 Cyflwr Ffordd Lon Groes (mynedfa Stad Gaerwen Uchaf i Cyffordd Lon yr Orsaf).

7.5 Pafin ger Glanrafon / Gorslwyn ym Mhentre Berw

7.6 Cysgodfan gyferbyn Canolfan Hamdden – adroddiad oddiwrth y Cyng Ian Owen y bydd cost yr holl waith sydd angen i'r cysgodfan = £1140 + TAW. Clerc i cadarnhau gyda Mr Dewi Hughes.

7.7 Parcio / Llinellau Melyn - cafwyd trafodaeth unwaith eto ynghylch a pharcio sydd yn achosi pryderon ac anhawster yn y pentref ac i baratoi rhestr erbyn y cyfarfod nesaf ac ymestyn gwahoddiad i'r Heddlu er mwyn trafod yn bellach.

7.8 Biniau – cafwyd trafodaeth pellach ynghylch a diffyg biniau mewn safloedd pwysig yn y pentref. Penderfynwyd y dylai'r Clerc gysylltu gyda McColls a gwneud ymholiadau gyda'r Adran Gwastraff

Arwyddo.....

8 CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD. - Dim cais wedi ei dderbyn.

9 PENDERFYNIADAU YR ADRAN CYNLLUNIO.

9.1 Cais Cynllunio Llawn Uned 31, Stad Diwydiannol y Gaerwen.
Rhif Cais: 33C20W/3 Penderfyniad: CANIATÂD.

10 MATERION ARIANNOL, GWEINYDDOL & ASESIAD RISG.

10.1 **Adroddiad Ariannol Misol:**
Cyflwynwyd ac fe arwyddwyd adroddiad taliadau a derbyniadau Mis Ebrill 2016 yn cynnwys cysoniad banc a datganiad y banc.

10.2 **Taliadau:**
Yn ogystal a rhestr taliadau amlinellwyd yn 10.1, penderfynwyd talu'r canlynol:

201187	J Alun Foulkes	Cyflog Mis Ebrill 2016	£240.00
201188	HMRC	PAYE	£ 60.00
201189	O G Jones	Llwybr y Rhos	£ 72.00
201190	Dafydd Hughes	Caeau Chwarae	£350.00
201191	Vision ICT Ltd	Gwefan Newydd	£300.00
201192	Zurich Insurance	Yswiriant Blynyddol	£905.61

10.3 **Materion Gweinyddu:**

10.3.1 Ystyried gosod Hysbysfwrdd Newydd i'r Cyngor Cymdeithas.

10.3.2 Angen cwblhau y mandate er mwyn llenwi a cwblhau yr archwiliad blynyddol.

10.3.3 Gobeithio cawn weld y Wefan Newydd yn barod erbyn diwedd Mis Mehefin.

10.3.4 Bydd rhaid adolygu Rheolau Statudol a Rheolau Cyllid yn dilyn newidiadau,

10.4 Asesiad Risg:

10.4.1 Rhoddwyd caniatad i'r Ganolfan drefnu amcancyfrif gwerth prynnu Boilar newydd er mwyn lleihau risg damweiniau.

11 ADRODDIADAU
Cafwyd adroddiadau ar y canlynol:

11.1 Adroddiad oddiwrth Cyng Janet Hughes yn dilyn cyfarfod Pwyllgor Un Llais Cymru (Cangen Môn) – 7fed Ebrill 2016.

11.2 Adroddiad y Cadeirydd yn dilyn cyfarfod Grwp Rhandaliad a gynhaliwyd ar y 6ed Ebrill 2016 a Phwyllgor Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref & Chymuned – 28ain Ebrill 2016.

12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 24ain MAI 2016.
Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod. Clowyd y cyfarfod am 8:35yh.

Arwyddo.....Cadeirydd.....Dyddiad.